# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-16-09 Papur 2: 24 Tachwedd 2009

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau sydd wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor o'r blaen. Mae llawer o'r wybodaeth hon wedi dod i law ar ffurf gohebiaeth. Os yw hynny'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 16-09 Papur 2A

### (i) P-03-205 Cadwch farchnad da byw y Fenni

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gadw cymeriad hanesyddol y Fenni fel tref farchnad drwy beidio â diddymu na diwygio Deddfau Gwelliannau i'r Fenni 1854 i 1871, gan felly gadw'r holl fanteision economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sydd ynghlwm â bod yn dref farchnad.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-205.htm

**Cynigiwyd:** Barry Greenwood

**Nifer y llofnodion:** 4757

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 19 Mai 2009, 9 Mehefin 2009, 23 Mehefin 2009, 6 Hydref 2009 a 20 Hydref 2009

**Y diweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 16-09 Papur 2A.

### (ii) P-03-216 Triniaeth IVF

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu proses ffurfiol i arwain at weithredu'n gyflawn ganllaw clinigol NICE, CG11, ar ffrwythlondeb (a gyhoeddwyd yn 2004) yn cynnwys ei argymhelliad i ddarparu hyd at dri chylch llawn IVF. Dylai tri chylch llawn fod ar gael am ddim gan y GIG.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-216.htm

**Cynigiwyd gan:** Kara Ellard a Julia Enyon

**Nifer y llofnodion:** 4241

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 6 Hydref 2009

**Y diweddaraf:** Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 16-09 Papur 2A.

**(i**

### ii) P-03-217 Llyfrgell Genedlaethol Cymru - agor ar ddydd Sadwrn

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i sicrhau bod digon o arian yn cael ei ddarparu i Lyfrgell Genedlaethol Cymru, i alluogi'r Llyfrgell i wrthdroi ei benderfyniad i gau ar ddydd Sadwrn o'r 1af Ebrill 2009. Dydd Sadwrn yw unig ddiwrnod yr wythnos y gall ymchwilydd brwdfrydig, amatur sy'n gweithio, ymweld â'r llyfrgell.
**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-217.htm

**Cynigiwyd gan:** Nicholas Davey

**Nifer y llofnodion:** 93

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 9 Mehefin 2009 a 22 Medi 2009

**Y diweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 16-09 Papur 2A.

### (iv) P-03-221 Gwell triniaeth traed drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, Fforwm Pobl Hyn dros 50 oed Cwm Cynon, am gyflwyno deiseb yn galw am well triniaeth traed drwy'r GIG, yn enwedig i bobl hyn sy'n gaeth i'w tai yn ardal Rhondda Cynon Taf: Llofnodwch ein deiseb

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-221.htm

**Cynigiwyd gan:** Fforwm Pobl Hŷn dros 50 Cwm Cynon

**Nifer y llofnodion:** 49

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 9 Mehefin 2009 a 22 Medi 2009

**Y diweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Cyfarwyddwr Clinigol Therapi a Phennaeth Podiatreg yn Ymddiriedolaeth GIG Cwm Taf, a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 16-09 Papur 2A.

### (v) P-03-222 Y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol

**Geiriad y ddeiseb**

Mae'r Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i weithredu'r safon ar gyfer cwympo a thorri esgyrn yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hyn yn llawn, gan sicrhau bod cleifion sydd wedi torri esgyrn oherwydd breuder, neu sydd mewn perygl o wneud hynny, yn cael eu hadnabod, eu hasesu a'u trin gan wasanaethau cyswllt torri esgyrn ym mhob un o'r Byrddau Iechyd Lleol newydd. Hoffwn weld gwasanaeth cyswllt torri esgyrn yn cael ei gysylltu â phob ysbyty sy'n trin cleifion sydd wedi torri esgyrn oherwydd breuder a gofynnwn i lywodraeth Cymru fynnu bod gwasanaethau cyswllt torri esgyrn yn cael eu darparu'n gyffredinol ar draws y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-222.htm

**Cynigiwyd gan:** Y Gymdeithas Osteoporosis Genedlaethol

**Nifer y llofnodion:** 22

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 7 Gorffennaf 2009 a 6 Hydref 2009

**Y diweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae i'w weld fel rhan o PET(3) 16-09 Papur 2A.

### (vi) P-03-224 Meithrinfa Stepping Stones

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymyrryd i atal cau Meithrinfa Stepping Stones ar gampws Glyn Ebwy, Coleg Gwent.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-224.htm

**Cynigiwyd gan:** Brian Walters

**Nifer y llofnodion:** 20 (hefyd casglodd y deisebydd dros 1000 o lofnodion ar gyfer deiseb gysylltiedig â hi)

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 9 Mehefin 2009 a 22 Medi 2009

**Y diweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebydd a chan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 16-09 Papur 2A.

### (vii) P-03-225 Coleg Gorseinon

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi arian ychwanegol i Goleg Gorseinon i gadw cyrsiau a dosbarthiadau ar agor a

pharhau i gael eu cynnig.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-225.htm

**Cynigiwyd gan:** Tracy Bates

**Nifer y llofnodion:** Dros 800

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 7 Gorffennaf 2009 a 6 Hydref 2009

**Y diweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog a Choleg Gorseinon, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 16-09 Papur 2A.

### (viii) P-03-231 Pa mor agos yw tyrbinau gwynt at dai preswyl

**Geiriad y ddeiseb**

Gofynnwn i'r Cynulliad adolygu'r darpariaethau presennol ynghylch pa mor agos y caiff tyrbinau gwynt fod at gartrefi, sef 500m ar hyn o bryd (gweler paragraff 3.4, Atodiad D i TAN8). Gofynnwn i'r pellter lleiaf fod yn 2KM fel yn yr Alban. Ynghyd â'r swn, bu llawer o ddamweiniau ac mae'r ffaith bod y tyrbinau mor agos at gartrefi yn effeithio ar harddwch yr ardal leol i drigolion.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-231.htm

**Cynigiwyd gan:** Grwp Gweithredu Glyncorrwg

**Nifer y llofnodion:** 171

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 7 Gorffennaf 2009 a 22 Medi 2009

**Y diweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth yr Alban, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 16-09 Papur 2A.

### (ix) P-03-251 Gwahardd Gwelyau Haul

**Geiriad y ddeiseb**

Deiseb i wahardd gwelyau haul heb eu goruchwylio sy'n gweithio â darnau arian a'r defnydd o welyau haul gan bobl o dan 18 oed yng Nghymru

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-251.htm

**Cynigiwyd gan:** Tenovus

**Nifer y llofnodion:** 1500+

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 6 Hydref 2009

**Y diweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn yn PET(3) 16-09 Paper 2A.

### (x) P-03-252 Gwrthwynebu ffordd fynediad ogleddol canolfan y Llu Awyr Brenhinol Sain Tathan (trigolion Trebefered)

### Geiriad y ddeiseb

Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i newid ei chynlluniau ar gyfer Academi Dechnegol Amddiffyn yn Sain Tathan fel nad oes ffordd fynediad ogleddol yn cael ei hadeiladu a bod y safleoedd maes glas yn Fferm Tremain, Picketston ac Eglwys Brewis yn cael eu cadw. Byddai hyn yn cymryd i ystyriaeth safbwyntiau 95% o'r 395 unigolyn yr ymgynghorwyd â hwy yn Nhrebefered.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-252.htm

**Cynigiwyd gan:** Trigolion Trebefered

**Nifer y llofnodion:** Cynigiwyd y ddeiseb gan drigolion Trebefered a chasglodd 3 llofnod. Hefyd, casglodd y deisebydd 377 o lofnodion

ar gyfer deiseb gysylltiedig â hi.

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor ar:** 20 Hydref 2009

**Y diweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebwyr, ac mae i'w gweld fel atodiad i'r papur hwn fel rhan o PET(3) 16-09 Papur 2A

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2009**